## Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni: ‘Help to Heat’

## Datganiad o Fwriad ‘Flexible Eligibility’ yr Awdurdodau Lleol

**Awdurdod lleol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

**Dyddiad cyhoeddi:**

**Fersiwn: 1.0** 21 Medi 2017

**Fersiwn:** 2.0 ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2018 ymlaen

**URL:**
[http://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/Housing/RelatedDocuments/RCTCBCECOFlexstatementofintentfinalforapproval.pdf]

### 1) Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (“y Cyngor”) yn croesawu cyflwyno'r system ‘Flexible Eligibility’, ac mae'n bwriadu ei defnyddio ar gyfer lleihau tlodi tanwydd yn y fwrdeistref. Mae'r datganiad yma'n egluro meini prawf y Cyngor ar gyfer y system ‘Flexible Eligibility’ yn rhan o raglen Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (‘ECO’) – ‘Help to Heat’ – mis Ebrill 2017 tan fis Medi 2018.

Mae mynd i'r afael â'r mater yma ymhlith blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol ac, yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cymryd llawer o gamau ymyrryd a chyflwyno gwasanaethau i helpu lliniaru effeithiau tlodi tanwydd ar drigolion. Mae'r gwaith yma wedi ei ddogfennu a'i flaenoriaethu trwy wahanol gynlluniau cyflawni strategol, ac rydyn ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid i ddarparu neu i alluogi gwasanaethau sy'n lliniaru effaith tlodi tanwydd a chreu tai mwy cynnes, gwella cyflwr eiddo, a gwella iechyd a llesiant trigolion sy'n byw yn y fwrdeistref.

Wrth bennu aelwydydd cymwys o dan y system ‘Flexible Eligibility’, mae'r Cyngor yn ceisio galluogi trigolion i gael budd o'r cyllid, a bydd yn gofyn caniatâd aelwydydd i'w cynnwys nhw mewn Datganiad. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Datganiadau rheolaidd i'w Bartner Cyflawni, sy'n nodi'r aelwydydd hynny sy'n gymwys. Bydd y Partner Cyflawni yn rhoi'r wybodaeth yma i gyflenwr Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (‘ECO’) trwy'r broses ymgeisio ar gyfer Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (‘ECO’).

Dylai gael ei nodi mai'r cyflenwyr ynni o dan rwymedigaeth, neu eu contractwyr, fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ynglŷn ag a fydd unrhyw aelwyd unigol yn manteisio ar welliannau i arbed ynni. Fydd cynnwys aelwydydd mewn Datganiad Cymhwyster wedi ei roi gan y Cyngor i gyflenwr ddim yn sicrhau gosod mesurau. Mae'r dull yma wedi ei ddefnyddio ar gyfer manteisio i'r eithaf ar gyllid, ond, bydd y penderfyniad terfynol yn dibynnu ar y canlynol:

I. Amlygu mesurau cymwys o dan y rhaglen ‘Help to Heat’
II. Cynnal archwiliadau a chyfrifo'r costau gosod
III. Asesiad gan y cyflenwr o ran cost-effeithiolrwydd gosod mesurau mewn perthynas â bodloni ei rwymedigaeth

IV. A yw'r cyflenwr wedi cyflawni ei dargedau neu oes angen rhagor o fesurau i fodloni ei dargedau o ran Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (bydd hyn yn effeithio ar faint o arian sydd ar gael drwy'r cynllun)
V. Arbedion ynni mae modd eu sicrhau ar gyfer eiddo.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw gyflenwr ynni o dan rwymedigaeth, neu gontractwr sy'n gweithio ar ei ran, i gydymffurfio â Deddf Diogelu Data ac i ddilyn gofynion Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ('Ofgem') yn llwyr o ran rhaglen Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni ('ECO') – 'Help to Heat'. Byddai hefyd angen i'r cyflenwr ynni, neu ei gontractwr, weithredu yn unol ag arfer orau'r diwydiant o ran gofal i ddefnyddwyr a safonau ansawdd unrhyw waith a allai gael ei wneud.

## 2) Sut mae'r Cyngor yn bwriadu amlygu aelwydydd cymwys

Bydd y Cyngor yn targedu ardaloedd o incwm bach (fel sydd wedi eu diffinio ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) ac/neu ardaloedd lle mae cartrefi â pherfformiad ynni gwael (ar sail data Tystysgrifau Perfformiad Ynni sydd ar gael). Bydd gwaith marchnata a diweddaru'r wefan yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion er mwyn iddyn nhw gael atgyfeirio eu hunain i'r cynllun. Mae'r manylion am sut byddwn ni'n amlygu eiddo ag waliau solet, sy'n gymwys i'w insiwleiddio o dan y categori "mewn-lenwi", hefyd i'w gweld isod.

Yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael o fewn y Cyngor, a defnyddio data yn unol â'r gyfraith, bydd y Cyngor yn targedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen gan ystyried canllawiau'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ('BEIS') ar faterion targedu, gan gynnwys:

i. Y rhai sy'n byw yn y sector preifat ac sy'n cael budd-daliadau ar sail prawf modd ac/neu sydd ag incwm bach
ii. Byddwn ni'n croesgyfeirio data incwm at ddata sydd gennym ni neu at ddata mae modd i ni ei gael drwy Dystysgrifau Perfformiad Ynni, mesuryddion rhagdalu, gwariant ar danwydd, tai (cyflwr/oed/math), math o wresogi
iii. Bydd aelwydydd ag incwm bach, sy'n byw mewn tai aneffeithlon o ran ynni, yn cael eu pennu yn y sector rhentu preifat trwy waith gorfodi o dan Ddeddf Tai 2004
iv. Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu ag aelwydydd mewn perygl ac sy'n anodd eu cyrraedd
v. Defnyddio atgyfeiriadau Canolfan Gwasanaethau Ynni y Cyngor a swyddogaeth yr Ymgynghorwyr Ynni rheng flaen
*vi. Adnabod tlodi tanwydd*

Bydd hyn yn helpu'r awdurdod lleol i bennu aelwydydd a fyddai'n cael budd o osod mesurau o dan y system 'Flexible Eligibility', fel a ganlyn:

- Y rhai sy'n byw mewn tlodi tanwydd
- Y rhai sydd mewn perygl oherwydd effeithiau byw mewn cartref oer
- Y rhai fyddai'n cael budd o "fewn-lenwi" o ran insiwleiddio waliau solet

Bydd y Cyngor yn amlygu aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y system 'Flexible Eligibility' trwy'r camau canlynol:

**Cam 1 Aelwydydd sy'n bodloni'r trothwy o ran incwm bach; a**

**Cam 2 Aelwydydd sy'n wynebu costau ynni uwch neu sydd mewn perygl oherwydd effeithiau cartref oer**

**Neu'r rhai sy'n cael budd o "fewn-lenwi" o ran insiwleiddio waliau solet**

***CAM 1 – Amlygu aelwydydd ag incwm bach***

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn pennu 'incwm bach' drwy'r canlynol;

- Bod aelod o'r aelwyd yn derbyn budd-dal sy'n gymwys o ran Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni ('ECO')
- Cartrefi sy'n derbyn budd-dal tai, budd-dal treth y cyngor
- Aelwydydd sydd ag incwm is na'r cyfartaledd, sef llai na £30,576 ar ôl costau tai (dyma'r incwm cyfartalog aelwydydd yn ardal Rhondda Cynon Taf yn seiliedig ar ddata incwm y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2014)

Os yw'n cael ei bennu bod incwm yr aelwyd 'incwm bach', bydd yr aelwyd yn symud ymlaen i GAM 2 yr asesiad, sef pennu a oes ganddi gostau uwch (o ran ynni) neu'n cael ei hystyried mewn perygl oherwydd byw mewn cartref oer.

***CAM 2***

1. ***Aelwydydd â chostau uwch***

Bydd aelwydydd sy'n bodloni'r meini prawf o ran incwm bach yna'n cael eu hasesu i bennu a oes ganddyn nhw gostau ynni uwch yn sgil y cartrefi maen nhw'n byw ynddyn nhw.  Bydd yr asesiad yn ystyried y Dystysgrif Perfformiad Ynni lle mae un ar gael neu, os nad oes un ar gael, bydd asesiad yn cael ei wneud dan ddefnyddio'r meini prawf yn y tabl isod.

Er mwyn pennu cartref fel un sydd â chostau tai uchel, rhaid iddo gwrdd ag un o'r meini prawf canlynol;

a. Cartrefi mewn parciau a llety carafanau parhaol eraill (waeth beth fo'r incwm)
b. Eiddo rhent preifat gan gynnwys Tai Amlfeddiannaeth (HMOs)
c. Eiddo wedi'i gynhesu gan danwydd ac eithrio nwy prif gyflenwad
d. Fflatiau uwchben eiddo masnachol
e. Eiddo 'tai parod'
f. Tai Gwarchod i'r henoed
g. Cartrefi sydd angen inswleiddiad wal geudod
h. Cartrefi sydd angen inswleiddiad atig (gan gynnwys ail lenwi)
i. Cartrefi sydd angen inswleiddiad wal solet
j. Cartrefi â boeler sy'n bodloni Meini Prawf Boiler Cymwys y Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni ('ECO')

k. Aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi â Thystysgrif Perfformiad Ynni ym mandiau D, E, F, neu G; *neu*
l. Aelwydydd sy'n sgorio '50' (hanner cant) neu drosodd yn y meini prawf sgorio canlynol.

| CWESTIWN | YMATEB | SGÔR |
|---|---|---|
| Sawl ystafell wely sydd yn y cartref? | 1 | **10** |
| | 2 | **20** |
| | 3 | **30** |
| | 4 | **40** |
| | 5 | **50** |
| | 6 + | **60** |
| Pa fath o dŷ? | Tŷ sengl | **30** |
| | Tŷ pâr | **20** |
| | Tŷ teras | **10** |
| | Tŷ pen teras | **20** |
| | Fflat | **20** |
| | Byngalo | **30** |
| Ydy taliadau ynni'n cael eu gwneud trwy Ddebyd Uniongyrchol? | Ydy | **0** |
| | Nac ydy | **10** |
| Gafodd y tŷ ei adeiladu cyn 1964 neu ei adeiladu drwy'r system? | Do | **20** |
| | Naddo | **0** |
| Beth yw'r prif fath o danwydd? | Nwy | **0** |
| | Trydan | **20** |
| | Arall | **20** |
| Ydy'r eiddo'n gartref mewn parc? | Ydy | **20** |
| | Nac ydy | **0** |
| Ydy'r aelwyd yn defnyddio gormod o ynni (yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ('Ofgem'), sef dros 23,000 kWh o nwy neu 5,100 kWh o drydan)? | Ydy | **10** |
| | Nac ydy | **0** |

Diffiniad defnyddwyr ynni uwch yw aelwydydd sy'n defnyddio mwy na 23,000 kWh o nwy a mwy na 5,100 kWh o drydan yn unol â Thaflen Ffeithiau 96, Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ('Ofgem'), dyddiedig 18.1.11 – 'Typical domestic energy consumption figures'.

### *2. Pennu incwm bach a pherygl oerfel*

Bydd aelwydydd, sydd wedi eu hamlygu'n rhai ag incwm bach yn rhan o GAM 1, yn cael eu hasesu i bennu a oes ganddyn nhw nodweddion penodol sydd cyfystyr â 'pherygl oerfel'. Does dim angen iddyn nhw gael eu pennu fel cartrefi â chostau tai uchel os oes ganddyn nhw gyflwr iechyd cymwys sy'n eu pennu'n fwy agored i'r oerfel, ond mae'n rhaid eu bod nhw wedi'u fel rhai sydd ag incwm bach.

Y cyflyrau iechyd cymwys sy'n gallu pennu aelwyd i fod yn agored i'r oerfel wedi'u seilio ar y rhai sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal 2015 ar farwolaethau gormodol dros y gaeaf a salwch wedi'i achosi gan gartrefi oer fel a ganlyn;

i. 60 oed a throsodd, ac yn enwedig y rhai dros 75 oed
ii. Plant o dan 16 oed a mamau beichiog
iii. Clefyd anadlol (clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ('COPD'), asthma)
iv. Clefyd cardiofasgwlaidd (e.e. clefyd isgemia'r galon, clefyd serebro-fasgwlaidd)
v. Salwch meddwl cymedrol i ddifrifol (e.e. sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol)
vi. Camddefnyddio sylweddau
vii. Dementia
viii. Clefydau niwrobiolegol a chysylltiedig (e.e. ffibromyalgia, enseffalomyelitis myalgic ('ME'))
ix. Salwch terfynol - Cancr
x. Symudedd cyfyngedig
xi. Hemoglobinopathi (clefyd y crymangelloedd, thalasaemia)
xii. Anableddau dysgu difrifol
xiii. Clefydau awto-imiwn a diffyg imiwnedd (e.e. lwpws, sglerosis ymledol ('MS'), diabetes, firws diffyg imiwnedd dynol ('HIV'))
xiv. Pobl sy'n derbyn budd-daliadau anabledd gan gynnwys Taliadau Annibyniaeth Personol, Lwfans Byw i'r Anabl a Lwfans Gweini.

I fod yn gymwys fel bod yn agored i'r oerfel, rhaid i gartrefi fod ag o leiaf un o'r cyflyrau iechyd uchod. Bydd unrhyw atgyfeiriad neu ymholiad sydd ddim yn bodloni'r meini prawf uchod yn cael ei ystyried gan Gyngor Rhondda Cynon Taf fesul achos.

***Prosiectau "mewn-lenwi" o ran inswleiddio waliau solet***

Lle bydd gwaith posibl wedi ei bennu, bydd cymorth yn cael ei roi i aelwydydd er mwyn iddyn nhw fanteisio ar arian ar gyfer inswleiddio waliau solet o dan y categori "mewn-lenwi", fel sydd wedi ei nodi yng nghanllawiau'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ('BEIS') gafodd eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2017.

## 3) Llywodraethu

*Swyddog cyfrifol*

Bydd y swyddog isod yn gyfrifol am lofnodi Datganiadau ar ran yr awdurdod lleol.

Teitl y swydd: Carfan Gwresogi ac Arbed

Ffôn: 01443 444511

E-bost: gwresogiacarbed@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Bydd trefnau llywodraethu lleol yn cynnwys gwaith gwirio dienw gan Swyddog arall i gadarnhau bod aelwydydd yn cael eu hatgyfeirio yn unol â'r bwriad cytûn. Bydd modd hefyd i garfan Archwilio Mewnol y Cyngor gynnal Archwiliadau eraill yn unol â gwaith archwilio grantiau arferol o ran Rhaglen Gyfalaf Tai y Cyngor.


## 4) Atgyfeiriadau

Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio gyda darparwyr gofal sylfaenol lleol i farchnata cyngor arbed ynni a gwasanaethau grantiau, yn rhan o'r cynllun "Gwresogi ac Arbed", ymhlith trigolion â chyflyrau iechyd. Rydyn ni hefyd yn gweithio gyda Chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf a chylch trafod y Cyngor ar gyfer pobl dros 55 oed. Mae hefyd gennym ni berthynas waith agos ag asiantaethau Gofal a Thrwsio a phartneriaid eraill sydd eisoes yn anfon atgyfeiriadau at y Swyddog Ynni Tai i gael cyngor a chymorth. Byddai atgyfeiriadau gan drydydd parti hefyd yn cynnwys grwpiau cymunedol neu brosiectau arbed arian, gwasanaethau cyngor ar bopeth ac ati.

Mae'r Cyngor hefyd yn meithrin cysylltiadau gyda darparwr gofal eilaidd i hysbysebu'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

Yn rhan o'r gwaith pennu "ardaloedd tlawd o ran tanwydd" sydd mewn perygl, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio cael data iechyd i helpu llywio penderfyniadau strategol o ran targedu gwaith marchnata a hysbysebu mewn ardaloedd penodol yn y fwrdeistref.

Llwybrau atgyfeirio



## 5) Tystiolaeth, monitro ac adrodd

a. Bydd data dienw ar nodweddion aelwydydd wedi eu cyrraedd trwy'r system 'Flexible Eligibility' yn cael eu hadolygu.
b. Bydd y data uchod yn cynnwys manylion am yr aelwydydd wedi eu hasesu, sawl un oedd yn cael ei hystyried yn gymwys ac yn anghymwys, a sawl un oedd wedi manteisio ar welliannau o ran gwresogi ac inswleiddio.
c. Bydd rhywun yn cysylltu â'r holl aelwydydd, y cafodd Datganiadau eu gwneud ar eu cyfer, o fewn tri mis i gadarnhau bod mesurau wedi eu gosod.

## 6) Llofnod

Mr Paul Mee

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf